

# Ymgynghoriad ar newidiadau draft I ffioedd 2025

Ionawr 2025



# Cynnwys

Ynghylch y CFfC.....	3
Crynodeb.....	4
Ein cynigion .....	6
Ein gwariant a'r hyn a wnawn.....	7
Byddwch y rhain ar ein gwefan <a href="http://www.pharmacyregulation.org">www.pharmacyregulation.org</a> .....	13
Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	15
Ein dull.....	15
<b>Atodiad 1: Ein polisi ffioedd .....</b>	<b>18</b>
<b>Atodiad 2: Symiau'r ffioedd a gynigir.....</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad 3: Sut mae ein ffioedd adnewyddu yn cymharu â ffioedd rheoleiddwyr eraill .....</b>	<b>22</b>
<b>Atodiad 4: Rheolau ffioedd arfaethedig.....</b>	<b>24</b>
<b>Atodiad 5: Nodyn esboniadol rheolau ffioedd draft .....</b>	<b>35</b>

# Ynghylch y CFfC

## Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydyn ni'n gweithio i roi sicrwydd ynghylch safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a gwella'r safonau hynny.

## Beth rydyn ni'n ei wneud

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydyn ni'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddyn nhw gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydyn ni'n gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydyn ni'n gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydyn ni'n helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

# Crynodeb

Mae'r CFFC yma i warchod y cyhoedd ac i roi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferylliaeth. Mae'r Senedd wedi rhoi'r cyfrifoldeb i ni sicrhau bod gennym yr arian angenrheidiol i wneud hyn yn iawn, ac i gyflawni ein dyletswyddau a'n rolau statudol.

Fel pob sefydliad, rydym yn adolygu ein hincwm bob blwyddyn i sicrhau bod gennym yr hyn sydd ei angen arnom ar gyfer y flwyddyn i ddod. Un o'r pethau rydym yn ei adolygu fel rhan o hyn yw ein ffioedd. Rydym yn edrych ar ffyrdd o leihau costau fel y gallwn roi gwerth am arian i'n cofrestrdyddion. Rydym hefyd yn ystyried lle y gallwn wneud arbedion heb beryglu unrhyw un o'n rolau allweddol. Yn ogystal, rydym yn adolygu ein cronfeydd ariannol wrth gefn ac yn ystyried ffynonellau incwm eraill.

Ers ein hymgyngoriad diwethaf ar ffioedd ym Mai 2023, rydym wedi cyflwyno arbedion i helpu i gadw costau'n isel ac i leihau ein hól troed carbon. Rydym wedi lleihau ein gofod swyddfa ac wedi symud i swyddfeydd newydd y llynedd, mae'r rhan fwyaf o'n gwrandawiadau ffitrwydd i ymarfer bellach yn cael eu cynnal o bell, ac rydym hefyd wedi gwella ein defnydd o dechnoleg ac wedi lleihau ein costau postio ac argraffu. Rydym wedi ymrwymo i wneud mwy o arbedion ac yn defnyddio ein cronfeydd wrth gefn fel y gellir cadw cynnydd mewn ffioedd mor isel â phosibl.

Er gwaethaf y cynilion hyn, mae ein costau gweithredu wedi parhau i gynyddu. Er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein rôl allweddol o warchod y cyhoedd **rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd ar gyfer cofrestru fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferylliaeth**. Rydym yn cynnig cyflwyno **cylich ffioedd dwy flynedd o fis Medi 2025 ymlaen**. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i gofrestrdyddion ynghylch eu ffioedd tan **fis Medi 2027**.

## **Byddai ein cynigion ar gyfer cynnydd mewn ffioedd yn golygu bod o fis Medi 2025 ymlaen:**

Byddai ffioedd adnewyddu fferyllwyr yn cynyddu £17 i £293.

Byddai ffioedd adnewyddu technegwyr fferyllol yn cynyddu £8 i £138.

Byddai ffioedd adnewyddu safleoedd fferylliaeth yn cynyddu £24 i £416.

## **Byddai'r cynnydd arfaethedig o fis Medi 2026 yn golygu:**

Byddai ffioedd adnewyddu fferyllwyr yn cynyddu £17 i £310.

Byddai ffioedd adnewyddu technegwyr fferyllol yn cynyddu £8 i £146.

Byddai ffioedd adnewyddu safleoedd fferylliaeth yn cynyddu £25 i £441.

Mae hyn yn gynydd arfaethedig o 6% y flwyddyn.

Rydym wedi cadw cynnydd mewn ffioedd mor isel â phosibl drwy wella ein heffeithlonrwydd a thrwy ddefnyddio ein cronfeydd ariannol wrth gefn i dalu am unrhyw fylchau rhwng ein hincwm a'n treuliau. Rydym wedi ymrwymo i chwilio am ffyrdd o arbed arian, ond fel llawer o sefydliadau, rydym yn gweld ein costau gweithredu yn cynyddu, gyda biliau cyfleustodau uwch a chostau cyflenwyr yn codi, yn ogystal â chynnydd mewn costau cyflogwr fel cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Ar hyn o bryd, mae ein treuliau blynyddol yn fwy na'n hincwm, ac mae ein rhagolygon ariannol yn dangos y bydd hyn yn parhau ac yn gwaethygu dros y pum mlynedd nesaf. Nid yw hyn yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf popeth rydym yn ei wneud i leihau gwariant, ac er ein bod yn defnyddio

ein cronfeydd wrth gefn i gefnogi ein gwaith o ddydd i ddydd, nad oes gennym unrhyw ddewis ond cynyddu ein hincwm.

# Ein cynigion

Mae'r CFFC yma i warchod y cyhoedd ac i roi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferylliaeth. Mae'r Senedd wedi rhoi'r cyfrifoldeb i ni sicrhau bod gennym yr arian angenrheidiol i wneud hyn yn iawn, ac i gyflawni ein dyletswyddau a'n rolau statudol.

Fel pob sefydliad, rydym yn adolygu ein hincwm bob blwyddyn i sicrhau bod gennym yr hyn sydd ei angen arnom ar gyfer y flwyddyn i ddod. Un o'r pethau rydym yn eu hadolygu fel rhan o hyn yw ein ffioedd. Rydym yn edrych ar ffyrdd o leihau costau fel y gallwn roi gwerth am arian i'n cofrestryddion. Rydym hefyd yn ystyried lle y gallwn wneud arbedion heb beryglu unrhyw un o'n rolau allweddol. Yn ogystal, rydym yn adolygu ein cronfeydd ariannol wrth gefn ac yn ystyried ffynonellau incwm eraill..

Mae ein polisiau ffioedd yn allweddol wrth lywio ein penderfyniadau – gallwch ddarllen y polisi yn Atodiad 1.

Ers ein hymgyngoriad diwethaf ar ffioedd ym Mai 2023, rydym wedi cyflwyno arbedion i helpu i gadw costau'n isel ac i leihau ein hól troed carbon:

- Rydym wedi lleihau ein gofod swyddfa ac wedi symud i swyddfeydd newydd y llynedd. Mae hyn wedi arwain at arbediad sylweddol, ac rydym wedi ei gynnwys yn ein rhagolygon ariannol.
- Mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau ffitrwydd i ymarfer bellach yn cael eu cynnal o bell. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gofrestryddion a thystion ac yn lleihau costau teithio.
- Rydym hefyd wedi gwella ein defnydd o dechnoleg ac wedi lleihau ein costau postio ac argraffu.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd, rydym wedi symud i ffwrdd o fod â fflyd ceir ac yn lle hynny yn rhoi lwfans ceir i staff sydd angen cerbyd fel rhan o'u rôl. Mae hyn hefyd wedi lleihau ein costau.

Rydym wedi ymrwymo i wneud mwy o arbedion ac yn chwilio am ffyrdd o leihau costau a gwella effeithlonrwydd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau presennol a disgwylidig. Ein nod yw arbed £1.5 miliwn ar ein gwariant disgwylidig erbyn diwedd 2027/28.

Er gwaethaf gwneud yr arbedion hyn, mae ein costau gweithredu wedi parhau i gynyddu. Er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein prif rôl o warchod y cyhoedd **rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd ar gyfer cofrestru fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferylliaeth.**

## Cylch ffioedd aml-flwyddyn

Yn 2021, ymgynghorwyd â chofrestryddion ar gyflwyno cylchoedd ffioedd 'aml-flwydd'. Nod hyn oedd rhoi mwy o sicrwydd i gofrestryddion ynghylch costau cofrestru yn y dyfodol a'u galluogi i gynllunio eu cyllideb yn fwy effeithiol. Byddai'r cylchoedd ffioedd newydd hefyd yn ein galluogi i gynllunio ein gwaith dros gyfnod hwy ac i wneud newidiadau i ffioedd yn fwy graddol.

Cytunodd llawer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn gyda'n cynlluniau i gyflwyno cylch ffioedd aml-flwydd, felly rydym yn cynnig cyflwyno **cylch ffioedd dwy flynedd o fis Medi 2025**. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i gofrestryddion ynghylch eu ffioedd tan **fis Medi 2027**.

## **Byddai ein cynigion ar gyfer cynnydd mewn ffioedd yn golygu bod o fis Medi 2025:**

Byddai ffioedd adnewyddu fferyllwyr yn cynyddu £17 i £293.

Byddai ffioedd adnewyddu technegwyr fferyllol yn cynyddu £8 i £138.

Byddai ffioedd adnewyddu safleoedd fferylliaeth yn cynyddu £24 i £416.

## **Byddai'r cynnydd arfaethedig o fis Medi 2026 yn golygu:**

Byddai ffioedd adnewyddu fferyllwyr yn cynyddu £17 i £310.

Byddai ffioedd adnewyddu technegwyr fferyllol yn cynyddu £8 i £146.

Byddai ffioedd adnewyddu safleoedd fferylliaeth yn cynyddu £25 i £441.

Mae hyn yn gynydd arfaethedig o 6% y flwyddyn.

Rydym yn deall bod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn dod ar adeg pan fo llawer o weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth dan bwysau ariannol cynyddol. Ond credwn fod y cynnydd mewn ffioedd rydym yn ei gynnig yn angenrheidiol os ydym i gyflawni ein dyletswyddau statudol a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd. Bydd y ffioedd yn parhau i gael eu talu'n flynyddol.

Gallwch weld rhestr lawn o'r ffioedd a'r cynnydd arfaethedig yn Atodiad 2.

Gallwch hefyd weld yn Atodiad 3 sut mae'r ffioedd adnewyddu arfaethedig yn cymharu â'r ffioedd a godir gan reoleiddwyr gofal iechyd eraill.

## **Ein gwariant a'r hyn a wnawn**

Daw 90% o'n hincwm o ffioedd cofrestrdyddion. Mae'r ffioedd hyn yn ariannu'r gwaith a wnawn i warchod y cyhoedd ac i roi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferylliaeth. Mae ein gwariant arfaethedig ar gyfer 2025/26 wedi'i ddangos isod:

Mae traean o'n costau gweithredu yn mynd tuag at reoli pryderon am y proffesiynau a reoleiddwn – sef ein gwaith ffitrwydd i ymarfer. Dyma'r maes lle mae gennym y mwyaf o gysylltiad â'r cyhoedd, ac mae'n rhaid i ni gynnal asesiad manwl o bob pryder a gawn.

Nid yw rhai o'r cwynion a dderbyniwn yn faterion i'r CFFC eu trin. Rydym yn cyflwyno gwasanaethau 'arwyddo' i gyfeirio cleifion at y sefydliad cywir pan fyddant yn codi pryder. Bydd hyn yn helpu i leihau ein costau ac yn sicrhau bod pryderon cleifion yn cael eu trin mor gyflym ac mor briodol â phosibl. Bydd yr arwyddo hefyd yn ein galluogi i gyfeirio mwy o'n hadnoddau tuag at ymchwiliadau. Rydym bellach hefyd yn cynnal y mwyafrif o'n gwrandawiaidau o bell, er mwyn lleihau costau i gofrestrdyddion a thystion ac i leihau ein gofod swyddfa.

Er mai ein prif rôl yw gwarchod y cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt fod gwasanaethau fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol, rydym yn cydnabod bod gennym rôl wrth gefnogi'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn gosod y safonau y disgwylir i weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth eu bodloni, ac mae ein tîm polisi a safonau yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth bob dydd. Maent yn rhoi cyngor ar gwestiynau moesegol ac yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gan gofrestrdyddion ynghylch ein safonau a'n canllawiau.

Mae ein Cyngor llywodraethu wedi cytuno ar gylch recriwtio aml-flwydd ar gyfer aelodau newydd y Cyngor. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal safon lywodraethu dda ar gyfer y sefydliad, ac yn dangos arweinyddiaeth hefyd o ran dod o hyd i arbedion cost. Roedd y cylch recriwtio newydd yn


golygu bod y Cyfrin Gyngor wedi gallu penodi aelodau newydd i'r Cyngor ar gyfer ein dwy rownd wagiaf ddiweddaraf mewn un cylch recriwtio, gan leihau ein costau recriwtio.

Ar ben eu cyfrifoldebau arolygu, mae ein harolygwyr yn gweithredu fel pwynt cyswllt 'mynd-i' i weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth ac i berchnogion fferyllfeydd yn eu hardal. Maent yn gallu ategu'r cyngor a roddir gan ein tîm polisi a safonau.

Mae staff ein canolfan gyswllt i gwsmeriaid yn darparu cyngor a chanllawiau i aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth. Maent yn gweithio i sicrhau bod pawb sy'n eu ffonio neu'n anfon e-bost atynt yn cael eu trin mor gyflym â phosibl. Maent yn darparu cymorth a chefnogaeth yn rheolaidd i fyfyrwyr fferylliaeth sy'n aros am eu canlyniadau, neu sydd eisoes wedi derbyn eu canlyniadau, ar gyfer yr asesiad cofrestru cyffredin.


Mae'r tablau isod yn nodi sut rydym yn cynnig gwario ein hincwm yn 2025/26 a sut y gwariwyd ein hincwm yn 2024/25. Mae ein costau gweithredu wedi cynyddu wrth i ni barhau i weld cynnydd yn ein gwaith ffitrwydd i ymarfer, yn ogystal â chynnydd yn ein gwaith sicrwydd ansawdd addysg wrth i ni symud tuag at weithredu llawn safonau 2021.

Ffigur 1: Sut rydym yn cynnig gwario ein hincwm yn 2025/26





Ffigur 2: Ein gwariant disgwylidig yn 2024/25



### Cynllun Gwella Costau

Rydym eisoes wedi cyflwyno arbedion cost er mwyn cadw'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd mor isel â phosibl. Byddwn yn parhau i chwilio am arbedion ac effeithlonrwydd i sicrhau bod cynnydd mewn ffioedd yn y dyfodol mor isel â phosibl. Rydym hefyd wedi ymrwmo i leihau ein gwariant tua 5% erbyn 2027/28. Mae hyn yn lleihad arfaethedig o £1.5 miliwn yn ein gwariant. Rydym yn bwriadu gwneud yr arbedion hyn drwy:

- adolygu ein contractau ac ailnegodi telerau lle bo hynny'n bosibl
- optimeiddio defnydd ein hadnoddau, adolygu prosesau a gweithdrefnau presennol, ac osgoi gwastraff
- asesu anghenion y gweithlu ac archwilio opsiynau ar gyfer defnyddio sgiliau a llafur yn fwy hyblyg
- gweithredu arferion newydd i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn llawn

### Ein dull o godi ffioedd

#### Talu am ein gwaith rheoleiddiol

Pan gafodd ein sefydliad ei greu, penderfynodd y Senedd fod yn rhaid i'r bobl a'r sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio dalu costau hyn yn uniongyrchol. Felly, wrth ystyried pa ffioedd i'w codi, rydym yn edrych ar faint mae'n ei gostio i reoleiddio pob grŵp cofrestredig. Yna, rydym yn gosod ffioedd ar wahân ar gyfer pob grŵp, yn seiliedig ar y costau hynny.

Er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn briodol, rydym yn defnyddio model dyrannu costau. Mae hyn yn egluro faint mae ein gweithgareddau unigol yn ei gostio ac yn rhoi fframwaith i ni ar gyfer trafodaethau am osod ffioedd. Defnyddiwyd y model hwn i bennu lefelau ffioedd presennol.

Pe na baem yn cynnig cynnydd mewn ffioedd i dalu ein costau, byddai'n rhaid i ni dorri'n ôl ar ein gwaith rheoleiddiol. Ni fyddem yn gallu cynnig yr un lefel o sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod y gofal a gânt yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae angen i ni sicrhau bod gennym yr adnoddau ariannol i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddiol.

Llwyddom i osgoi cynnydd mewn ffioedd yn 2022 a 2023, ac roedd y cynnydd mewn ffioedd o fis Ebrill 2024 y cyntaf i godi ffioedd uwchlaw'r lefel a osodon ni ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn 2010. Yn ôl cyfrifiannell chwyddiant **Banc Lloegr**, pe bai ffioedd adnewyddu blynyddol wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ers 2010, byddai'r ffioedd presennol yn £395.58 ar gyfer fferyllwyr ac £214.40 ar gyfer technegwyr fferyllol.

Fel y soniwyd uchod, rydym wedi cadw cynnydd mewn ffioedd mor isel â phosibl drwy wella ein heffeithlonrwydd a thrwy ddefnyddio ein cronfeydd ariannol wrth gefn i dalu am unrhyw fylchau rhwng ein hincwm a'n treuliau. Rydym wedi ymrwymo i chwilio am ffyrdd o arbed arian, gan gynnwys symud i swyddfeydd llai a fydd yn arwain at rai arbedion cost.

Ond, fel llawer o sefydliadau, rydym yn gweld ein costau gweithredu'n cynyddu, gyda biliau cyfleustodau uwch a chostau cyflenwyr yn cynyddu, yn ogystal â chostau cyflogwr uwch fel cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Ar hyn o bryd, mae ein treuliau blynyddol yn fwy na'n hincwm, ac mae ein rhagolygon ariannol yn dangos y bydd hyn yn parhau ac yn gwaethgu dros y pum mlynedd nesaf. Nid yw hyn yn gynaliadwy.

Mae hyn yn golygu, er gwaethaf popeth rydym yn ei wneud i leihau gwariant, ac er ein bod yn defnyddio ein cronfeydd wrth gefn i gefnogi ein gwaith o ddydd i ddydd, nad oes gennym unrhyw ddewis ond cynyddu ein hincwm.

Mae'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn gymesur â'r gwaith a wnawn i reoleiddio pob grŵp cofrestredig. Dyna pam rydym yn cynnig cynnydd canrannol cyfartal ar bob ffi gofrestru a godwn.

## Cynnydd disgwylidig yn ein gwaith ffitrwydd i ymarfer

Bydd y newidiadau rydym wedi'u gwneud i addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr, yn ogystal â'r newidiadau i'r ffordd y mae technegwyr fferyllol yn gweithio ac yn cael eu hyfforddi, yn cael eu gweithredu yn ystod y cylch ffioedd hwn. Rydym yn disgwyl i'n gwaith rheoleiddiol ar gyfer y ddau grŵp hyn gynyddu ac yn ystyried sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ein ffioedd o fis Medi 2027.

Rydym yn parhau i weld cynnydd sylweddol yn nifer y pryderon ffitrwydd i ymarfer a godir gyda ni – mae nifer y pryderon sydd wedi'u codi wedi dyblu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal â delio â'r cynnydd mewn pryderon, rydym yn dal i weithio drwy'r ôl-groniad o achosion a gododd yn ystod pandemig COVID. Mae angen i ni barhau i fuddsoddi yn ein tîm Ffitrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau datrysiad teg, cymesur ac amserol i bryderon ffitrwydd i ymarfer, ac i allu ymdrin yn effeithiol â'r cynnydd sylweddol yn nifer y pryderon a ddaw i'n sylw.

Mae'r gwasanaethau a gynigir mewn safleoedd fferylliaeth yn newid ac yn tyfu'n gyflym, yn y gymuned ac ar-lein. Rydym hefyd yn ystyried sut y gall y newidiadau hyn gael eu hadlewyrchu yn ein ffioedd yn y blynyddoedd i ddod.

## Cynnydd mewn ffioedd proffesiynol

Rydym yn gwybod y bydd unigolion o fewn pob grŵp cofrestredig i'w gweld y cynnydd mewn ffioedd yn fwy heriol. Rydym eisoes wedi ymgynghori ynglŷn â chodi ffioedd gostyngol ar gyfer grwpiau penodol, megis pobl sy'n gweithio'n rhan amser. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid cadw strwythur ffi unffurf, gan ystyried mai dyma'r dull mwyaf teg a syml i weithwyr proffesiynol cofrestredig ym maes fferylliaeth ac i'r CFFC.

Rydym yn disgwyl y bydd y cynnydd canrannol arfaethedig mewn ffioedd yn golygu y caiff y cynnydd costau ei rannu'n gymesur rhwng ein grwpiau cofrestredig, yn ogystal ag unrhyw un sydd angen talu unrhyw un o'r ffioedd eraill a restrir yn atodiad 2.

## Defnyddio ein cronfeydd wrth gefn

Fel llawer o sefydliadau, mae gan y CFFC gronfeydd ariannol wrth gefn sydd wedi'u neilltuo at ddefnydd yn y dyfodol – yn bennaf i dalu am dreuliau neu golledion annisgwyl. Ein polisi presennol yw bod y cronfeydd wrth gefn yn hafal i bedwar i chwe mis o'n costau gweithredu. Er mwyn cadw'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd mor isel â phosibl i gofrestryddion, rydym wedi penderfynu lleihau'r lefel hon i ddau i dri mis o'n costau gweithredu misol. Mae hwn yn gam tymor byr, a fydd yn berthnasol yn ystod cyfnod y cynllun ariannol pum mlynedd nesaf.

## Ffioedd yn y dyfodol

Mae ein model dyrannu costau yn rhoi dealltwriaeth glir i ni o gost ein gweithgareddau unigol. Mae hefyd yn ein helpu i sicrhau nad ydym yn defnyddio ffioedd cofrestryddion i ariannu unrhyw un maes o'n gwaith yn fwy nag sydd ei angen. Rydym eisoes wedi ymgynghori ar gyflwyno cylchoedd ffioedd 'aml-flwydd' a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i gofrestryddion ynghylch costau cofrestru yn y dyfodol, ac rydym wedi penderfynu mai nawr yw'r amser i gynnig defnyddio'r dull hwn.

Er mwyn sicrhau bod gennym yr adnoddau ariannol i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddiol, bydd cynnydd rheolaidd a chymedrol mewn ffioedd yn y dyfodol.

Yn ogystal â chynnig cylch ffioedd 'aml-flwydd', rydym hefyd yn ystyried ffioedd yn y meysydd isod.

## Achredu a chydabod cyrsiau a chymwysterau

Rydym yn gosod y safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol. Nod hyn yw sicrhau eu bod yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnynt i ddarparu'r gofal diogel ac effeithiol y mae cleifion a'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Rydym yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod cyrsiau a chymwysterau'n bodloni'r safonau hyn. Nid ydym yn codi tâl am y gwaith hwn, ond yn hytrach yn adennill y costau'n uniongyrchol gan y sefydliadau rydym yn eu hachredu.

Yn ein hymgyngoriad ym Mai 2023, egluron ni fod cost y gwaith hwn wedi cynyddu, ac felly y bydd y swm rydym yn anelu at ei adennill hefyd yn cynyddu. Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd ein Cyngor welliannau i'n prosesau achredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyflwyno arolygon blynyddol o fyfyrwyr a hyfforddeion, a
- symud pob cwrs onto'r un cylch ailachredu

Rydym yn datblygu cynlluniau i gyflwyno ffi achredu flynyddol ar gyfer cyrsiau achrededig. Rydym yn deall y pwysau ariannol y mae sefydliadau addysg uwch yn eu hwynebu, a byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod unrhyw ffi arfaethedig yn gymesur ac yn deg i'n cofrestryddion.

## Ragnodi annibynnol

Bydd fferyllwyr newydd gymhwyso yn ymuno â'r gofrestr fel rhagnodwyr o fis Medi 2026. Bydd hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y fferyllwyr rhagnodi annibynnol a nodir ar ein cofrestr. Rydym yn disgwyl y bydd angen mwy o adnoddau arnom i gefnogi'r rhagnodwyr newydd. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni adolygu'r ffi bresennol unigol ar gyfer yr arysgrif.

## Safleoedd

Mae fferylliaeth yn parhau i esblygu i ddiwallu anghenion y cyhoedd a gofynion iechyd cleifion. Mae cleifion yn defnyddio safleoedd fferylliaeth mewn ffyrdd gwahanol, ac mae ganddynt lawer mwy o ymgynghoriadau â fferyllwyr (y cynllun Pharmacy First Plus yn yr Alban; y cynllun Pharmacy First yn Lloegr a'r Cynllun Cyflyrau Cyffredin yng Nghymru). Hefyd, mae mwy o gleifion yn defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd ar-lein.

O fis Ionawr 2025 ymlaen, byddwn yn gwneud gwelliannau i'r ffordd rydym yn cynnal arolygiadau. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o safleoedd fferylliaeth yn cael eu harolygu, a bydd mwy o bwyslais ar arolygiadau cyntaf ar gyfer safleoedd newydd gofrestredig. Wrth i ni weithredu'r dulliau newydd hyn, byddwn yn ystyried sut y dylai'r newidiadau hyn gael eu hadlewyrchu yn ein ffioedd yn y dyfodol.

## Dyfodol fferylliaeth a'i rheoleiddio

Mae'r ffordd y mae cleifion yn cael mynediad at wasanaethau fferylliaeth ledled Prydain Fawr yn debyg iawn. Rydym yn gwybod bod disgwyliadau cleifion a'r cyhoedd ynghylch gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn tyfu ym mhob gwlad. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth a'r lleoedd lle maent yn gweithio yn chwarae rhan fwy nag erioed wrth ddarparu gwasanaethau i gleifion, gyda mwy o fferyllfeydd yn cynnig gwasanaethau clinigol.

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd etholiadau i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn cael eu cynnal yn ystod ein cylch ffioedd arfaethedig. Gall y rhain arwain at fwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac at rôl hyd yn oed fwy i weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth. Mae'n debygol hefyd y bydd rhagor o newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau clinigol i gleifion yn Lloegr.

Er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y newidiadau hyn, ac er mwyn sicrhau ein bod yn gymesur ac yn effeithiol, bydd angen i ni:

- defnyddio gwybodaeth yn fwy effeithiol
- addasu cyn gynted â phosibl i'r byd o'n cwmpas, a
- bod yn **ragweithiol** yn y ffordd rydym yn rheoleiddio

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau ein bod yn sefydlog ac yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn cael ein hariannu'n briodol ac yn deg gan y bobl a'r sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio.

# Y broses ymgynghori

Mae ein cyngor llywodraethu wedi ystyried ystod o wybodaeth a thystiolaeth yn ofalus wrth ystyried yr ymgynghoriad hwn. Rydyn ni am roi ein barn ar brawf ac yn dymuno sicrhau bod penderfyniadau ynghylch ffioedd yn cael eu gwneud ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael pan fyddan nhw'n cwrdd i drafod yr ymatebion yn haf 2025.

**Cynhelir yr ymgynghoriad am 12 wythnos o 30 Ionawr 2025 tan 24 Ebril 2025.** Rydyn ni'n croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Anfonir y ddogfen ymgynghori hon at ystod o randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, presgripsiynwyr fferyllol, perchnogion fferyllfeydd, cyrff cynrychioli cleifion a chyflogwyr, cleifion a chyrrff cynrychioli, a phobl eraill sydd â diddordeb yn y maes. Rydyn ni'n croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan unrhyw un sydd â gwybodaeth neu farn. Bydd hyn yn ein helpu i roi ein hagwedd at ffioedd ar brawf, yn ogystal â'r cynigion penodol. Bydd hefyd yn ein helpu i asesu effaith bosibl neu fanteision lefelau ffioedd penodol. Wedi'r ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom.

## Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol. Bydd y Cyngor yn ystyried creu rheolau ffioedd 2025 a 2026 yn ei gyfarfod yn haf 2025, ac os bydd y Cyngor yn eu cymeradwyo, bydd y rheolau'n dod i rym ym mis Medi 2025. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnawn.

Byddwch y rhain ar ein gwefan [www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org).

## Pam rydyn ni'n ymgynghori

O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, rhaid ymgynghori cyn pennu safonau neu ofynion (fel lefelau ffioedd). Ymgynghorwn hefyd i sicrhau ein bod yn arfer ein swyddogaethau statudol yn effeithiol ac yn gymesur wrth gyflawni ein prif amcan, diogelu'r cyhoedd.

## Ymateb i'r ymgynghoriad

### Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich ymateb i'n helpu ddatblygu ein gwaith. Gofynnwn i chi roi gwybodaeth amdanoch chi ac, os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, eich sefydliad. Defnyddiwn hyn i'n helpu i ddadansoddi effaith bosibl ein cynlluniau ar wahanol grwpiau. Rydyn ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb yn ein holl waith fel rheoleiddiwr proffesiynau iechyd, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddiwedd yr arolwg. Nid oes rhaid ei llenwi, ond os gwnewch, bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni.

### Sut rydym yn rhannu'ch gwybodaeth

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw nac yn cyhoeddi'ch ymateb unigol.

Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn nodi enw'r sefydliad a gallem gyhoeddi eich ymateb, oni ddywedwch wrthym i beidio. Os ydych am i ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam y credwch fod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu gwybodaeth dan gyfreithiau'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os byddwch yn gofyn i ni gadw rhan o'ch ymateb, neu eich ymateb cyfan, yn gyfrinachol, byddwn yn trafod y cais o ddifri' ac yn ceisio'i barchu. Ond ni allwn warantu y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Os byddwch yn e-bostio ymateb i'r ymgynghoriad ag ymwadiad cyfrinachedd awtomataidd gan eich system TG ynghlwm wrtho, ni fydd hyn, ynndo'i hun, yn rhwymol ar y CFFC.

## Eich hawliau

Dan y gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch. Gallwch hefyd ofyn i ni ddileu eich ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a gyda phwy y dylech gysylltu, darllenwch ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy fynd i [pharmacyregulation.org/consultation-draft-changes-fees-2025](https://www.pharmacyregulation.org/consultation-draft-changes-fees-2025) a chwblhau'r holiadur ar-lein yno.

Rydyn ni'n annog ymatebwyr i ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno anfon ymateb drwy e-bost, ysgrifennwch eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a'i anfon i ni drwy [consultations@pharmacyregulation.org](mailto:consultations@pharmacyregulation.org).

## Fformatau eraill

Cysylltwch â ni ar [communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org) os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

## Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon am y broses ymgynghori ei hun, neu sylwadau arni, anfonwch nhw i: [feedback@pharmacyregulation.org](mailto:feedback@pharmacyregulation.org)

neu gallwch eu postio i'

Tîm Llywodraethu  
Cyngor Fferyllol Cyffredinol  
1 Cabot Square  
Llundain  
E14 4QJ

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Ein dull

Rydym wedi egluro yn adran 'Ein cynigion' yn y ddogfen hon, er gwaethaf arbedion effeithlonrwydd yn y CFFC, bod angen i ni gynyddu ein ffioedd er mwyn talu costau gweithredu cynyddol.

### 1. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhesymeg rydym wedi'i nodi ar gyfer cynyddu ein ffioedd?

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

Yn adran 'Ein cynigion' yn y ddogfen hon, rydym yn cynnig cynyddu ffioedd yn gymesur â'r ffi bresennol a delir gan bob grŵp cofrestredig.

### 2. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull o gynyddu ffioedd yn gymesur â'r ffioedd presennol?

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

### 3. Rhowch sylwadau yn egluro'ch atebion i'r ddau gwestiwn uchod.

## Gweithredu

Yn adran 'Ein cynigion' yn y ddogfen hon, rydym wedi cynnig cynnydd blynyddol o 6% ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/27.

### 4. A ydych yn credu bod y cynnydd arfaethedig o 6% ar gyfer 2025/26 a 2026/27 yn

Llawer rhy uchel

Ychydig yn rhy uchel

Fwy neu lai'n iawn

Ychydig yn rhy isel

Llawer rhy isel

Ddim yn gwybod

Rydym wedi egluro yn adran 'Ein cynigion' yn y ddogfen hon ein bod yn bwriadu pennu ffioedd gan ddefnyddio cylchoedd dwy flynedd. Bydd hyn yn golygu y byddwch yn parhau i dalu eich ffioedd unwaith y flwyddyn, ond y byddwch yn gwybod swm y ffi ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

**5. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i bennu ein ffioedd am ddwy flynedd o fis Medi 2025?**

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

**6. Rhwng eich sylwadau yn egluro eich atebion i'r ddau gwestiwn uchod.**

**Cwestiynau Cydraddoldeb ac Effaith**

**7. Rydym am ddeall a fydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. A ydych chi'n credu y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig?**

Nodwedd warchoddedig	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Effaith gadarnhaol a negyddol	Dim effaith	Ddim yn gwybod
Oedran					
Anabledd					
Ailbennu rhywedd					
Priodas a phartneriaeth sifil					
Beichiogrwydd a mamolaeth					
Hil					
Crefydd					
Rhyw					
Cyfeiriadedd rhywiol					



8. Rydym hefyd eisiau gwybod a fydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar staff fferylliaeth, perchnogion fferyllfeydd, fferyllwyr hyfforddeion sylfaenol, a chleifion a'r cyhoedd. A ydych chi'n credu y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bob un o'r grwpiau hyn?

	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Effaith gadarnhaol a negyddol	Dim effaith	Ddim yn gwybod
Staff fferylliaeth					
Perchnogion fferyllfeydd					
Fferyllwyr hyfforddeion sylfaenol					
Cleifion a'r cyhoedd					

9. Rhowch sylwadau yn egluro'ch atebion i'r ddau gwestiwn effaith uchod.

# Atodiad 1: Ein polisi ffioedd

- 1.1 Rhaid i'r ffioedd a osodwn dalu am gost darparu ein swyddogaethau rheoleiddio a sicrhau gwydnwch ariannol y sefydliad er mwyn i safonau fferyllol barhau i gael eu cynnal.
- 1.2 Byddwn yn dyrannu refeniw a ddaw drwy ffioedd mewn ffordd sy'n ein galluogi i gyflawni ein diben statudol a'n swyddogaethau rheoleiddio, gan osgoi 'ymledu rheoleiddiol', lle gall safonau, canllawiau a rheoleiddio dyfu'n gymhleth, yn aneglur, yn ddryslyd neu lle gallant wrthddweud ei gilydd.
- 1.3 Byddwn yn gosod safonau ar gyfer gwahanol grwpiau aelodaeth mewn ffordd sy'n ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys: cost rheoleiddio; ffactorau risg cymharol pan fônt yn wybyddus; a ffioedd rheoleiddio grwpiau proffesiynol eraill. Rydym yn ymrwymedig ar ystyried i ffactorau hyn, ond yn cydnabod, o ystyried cymhlethdod y materion hyn, nad oes fformiwla berffaith ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- 1.4 Byddwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng y ffactorau uchod a'r angen i osgoi gorgymhlethu ein strwythur ffioedd, a allai gynyddu ein costau at ei gilydd.
- 1.5 Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried ffactorau allanol, gan gynnwys ffactorau economaidd, wrth osod ffioedd, ochr yn ochr â'r angen i gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol.
- 1.6 Byddwn yn adolygu'r egwyddorion hyn o dro i dro a sicrhau ein bod yn nodi'n glir unrhyw newid arwyddocaol mewn materion sy'n ein caniatáu i ostwng neu gynyddu ffioedd yn y dyfodol, neu'n ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny.
- 1.7 Byddwn yn ymdrechu'n barhaus i adnabod ffyrdd o wneud ein gweithgareddau rheoleiddio'n fwy effeithlon a'u hegluro wrth ymgynghori ar ffioedd.
- 1.8 We will seek, through effective future planning and consideration of external economic factors, to avoid large fluctuations in fees, up or down, in future years.

## Atodiad 2: Symiau'r ffioedd a gynigir

Mae'r tablau isod yn dangos y symiau ffioedd presennol, y swm rydyn ni'n bwriadu cynyddu'r rhain ganddo, a chyfanswm y ffi rydyn ni'n bwriadu ei chodi o fis Medi 2025. Mae'r holl symiau wedi'u talgrynnu at y bunt agosaf.

Pan fyddwn yn codi ffioedd ailbroesu (er enghraifft, os nad yw cais yn gyflawn), byddwn hefyd yn cymhwyso'r cynnydd o 6% at y tâl hwn.

**Tabl 1: Fferyllwyr: newidiadau arfaethedig i ffioedd o Medi 2025**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 6% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu fferyllwyr / Ffi Cofrestru Gychwynnol	276	293	17
Asesiad OSPAP	769	815	46
Cais fferyllydd	114	121	7
Anodiad presgripsiynydd annibynnol	61	65	4
Tystysgrif statws proffesiynol	87	92	5
Fferyllydd yn dychwelyd i gofrestrriad*	543	576	33

\* Mae ystod o ffioedd adfer a dychwelyd i gofrestrriad, yn dibynnu ar sut y gadawodd fferyllydd y gofrestr. Rydyn ni wedi cynnwys y ffioedd a godir yn fwyaf cyffredin, ond byddai'r cynnydd o 6% yn berthnasol i bob ffi adfer a dychwelyd i gofrestrriad.

**Tabl 2: Fferyllwyr: newidiadau arfaethedig i ffioedd o Medi 2026**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 6% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu fferyllwyr / Ffi Cofrestru Gychwynnol	293	310	17
Asesiad OSPAP	815	864	49
Cais fferyllydd	121	128	7
Anodiad presgripsiynydd annibynnol	65	69	4
Tystysgrif statws proffesiynol	92	98	6
Fferyllydd yn dychwelyd i gofrestrriad*	576	610	34

\* Mae ystod o ffioedd adfer a dychwelyd i gofrestrriad, yn dibynnu ar sut y gadawodd fferyllydd y gofrestr. Rydyn ni wedi cynnwys y ffioedd a godir yn fwyaf cyffredin, ond byddai'r cynnydd o 6% yn berthnasol i bob ffi adfer a dychwelyd i gofrestrriad.

**Tabl 1: Technegwyr fferyllol: newidiadau arfaethedig i ffioedd o fis Medi 2025**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 6% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu technegydd fferyllol / / Ffi Cofrestru Gychwynnol	130	138	8
Cais technegydd fferyllol	114	121	7
Adfer technegydd fferyllol *	331	351	20

\*Mae ystod o ffioedd adfer a dychwelyd i gofrestrriad, yn dibynnu ar sut y gadawodd technegydd fferyllol y gofrestr. Rydyn ni wedi cynnwys y ffioedd a godir yn fwyaf cyffredin, ond byddai'r cynnydd o 6% yn berthnasol i bob ffi adfer a dychwelyd i gofrestrriad.

**Tabl 2: Technegwyr fferyllol: newidiadau arfaethedig i ffioedd o fis Medi 2026**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 6% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu technegydd fferyllol / Ffi Cofrestru Gychwynnol	138	146	8
Cais technegydd fferyllol	121	128	7
Adfer technegydd fferyllol *	351	372	21

\* Mae ystod o ffioedd adfer a dychwelyd i gofrestrriad, yn dibynnu ar sut y gadawodd technegydd fferyllol y gofrestr. Rydyn ni wedi cynnwys y ffioedd a godir yn fwyaf cyffredin, ond byddai'r cynnydd o 6% yn berthnasol i bob ffi adfer a dychwelyd i gofrestrriad.

**Tabl 3: Safleoedd fferyllol: newidiadau arfaethedig i ffioedd o fis Medi 2025**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 6% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu safle / Ffi Cofrestru Gychwynnol	392	416	24
Cais cofrestru safle	634	672	38
Trosglwyddo perchnogaeth	85	90	5
Ffi adfer safle	882	935	53

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 6% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Logo fferylliaeth ryngrwyd	54	57	3

**Tabl 6: Safleoedd fferyllol: newidiadau arfaethedig i ffioedd o fis Medi 2026**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 6% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu safle / Ffi Cofrestru Gychwynnol	416	441	25
Cais cofrestru safle	672	713	41
Trosglwyddo perchnogaeth	90	95	5
Ffi adfer safle	935	991	56
Logo fferylliaeth ryngrwyd	57	60	3

## Atodiad 3: Sut mae ein ffioedd adnewyddu yn cymharu â ffioedd rheoleiddwyr eraill


Fel rhan o'n meddylfryd, rydyn ni hefyd wedi ystyried y ffioedd y mae rheoleiddwyr eraill sydd â chyfrifoldebau tebyg yn eu codi nawr, neu'n cynnig eu codi. Mae'r tablau isod yn dangos y ffioedd hyn, gyda'n ffioedd arfaethedig ar gyfer 2025 i'w cymharu.

Mae rheoleiddwyr yn codi gwahanol fathau o ffioedd ac mae ganddynt gyfnodau adnewyddu gwahanol, felly nid yw wastad yn bosibl cymharu'n uniongyrchol.

Mae'r symiau ffioedd a ddangosir ar gyfer adnewyddu cofrestriad llawn am flwyddyn. Yn y tabl canlynol, ar gyfer rheoleiddwyr safleoedd, rydyn ni wedi dewis enghreifftiau sydd mor debyg â phosibl i fferyllfeydd cofrestredig. Trefnir y siartiau o'r isaf i'r uchaf o ran ffi adnewyddu.

Byddai ein ffioedd arfaethedig yn dal i fod ymhlith yr isaf ymhlith rheoleiddwyr tebyg

**Ffigur 3: Cymharu ein ffioedd adnewyddu arfaethedig ar gyfer fferyllwyr (Ff) a thechnegwyr fferyllol (TFf) â ffioedd adnewyddu proffesiynol 2025 (arfaethedig neu wirioneddol) rheoleiddwyr gofal iechyd eraill**




### Allwedd

HCPC Health and Care Professions Council

NMC Nursing and Midwifery Council

- GPhC (PT) GPhC proposed pharmacy technician renewal fee
- GPhC (P) GPhC proposed pharmacist renewal fee
- GOC General Optical Council
- PSNI Pharmaceutical Society of Northern Ireland
- GMC General Medical Council
- GOsC General Osteopathic Council
- GDC General Dental Council
- GCC General Chiropractic Council

**Ffigur 4: Cymharu ein ffi adnewyddu safle fferyllol arfaethedig â ffioedd adnewyddu safle 2025 (arfaethedig neu wirioneddol) rheoleiddwyr gofal iechyd eraill**



# Atodiad 4: Rheolau ffioedd arfaethedig

## THE GENERAL PHARMACEUTICAL COUNCIL (REGISTRATION AND RENEWAL FEES) RULES 2025

### CONTENTS

#### PART 1 GENERAL

1. Citation and commencement
2. Interpretation
3. Revocation

#### PART 2 REGISTERED PHARMACISTS

##### *Fees in respect of Register entries or annotation*

4. Application for entry in Part 1 of the Register
5. Entry in Part 1 of the Register following grant of an application
6. Application for an annotation to an entry in Part 1 of the Register
7. Voluntary removal of an entry or an annotation from Part 1 of the Register

##### *Fees in respect of renewal of Register entries*

8. Renewal of an entry in Part 1 of the Register
9. Application to restore an entry to Part 1 of the Register
10. Restoring an entry to Part 1 of the Register following grant of an application
11. Restoring an annotation to an entry in Part 1 of the Register

##### *Other fees*

12. Notices and specified certificates
13. Administration

#### PART 3 REGISTERED PHARMACY TECHNICIANS

##### *Fees in respect of Register entries*

14. Application for entry in Part 2 of the Register
15. Entry in Part 2 of the Register following grant of an application



16. Voluntary removal of an entry from Part 2 of the Register

*Fees in respect of renewal of Register entries*

17. Renewal of an entry in Part 2 of the Register

*Fees in respect of restoration of Register entries*

18. Application to restore an entry to Part 2 of the Register
19. Restoring an entry to Part 2 of the Register following grant of an application

*Other fees*

20. Notices and specified certificates
21. Administration

## PART 4 PREMISES

*Fees in respect of Register entries or annotations*

22. Application for entry in Part 3 of the Register
23. Application for entry in Part 3 of the Register following removal of previous entry
24. Entry in Part 3 of the Register following the grant of an application
25. Application for an annotation to an entry in Part 3 of the Register
26. Voluntary removal of an entry or an annotation from Part 3 of the Register

*Fees in respect of renewal of Register entries*

27. Renewal of an entry in Part 3 of the Register

*Fees in respect of restoration of Register entries or annotations*

28. Application to restore an entry to Part 3 of the Register
29. Restoring an entry to Part 3 of the Register following grant of an application
30. Restoring an annotation to an entry in Part 3 of the Register

*Other fees*

31. Administration

